CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

Dyddiad y cyfarfod: **7 Tachwedd 2024**

Teitl: **Sefydliad Addysgol Coffa Coe**

Pwrpas yr adroddiad: **Adolygu Fferm Blaendyffryn**

Er: **Penderfyniad**

Cefndir

Cyngor Sir Ceredigion yw unig ymddiriedolwr Sefydliad Addysgol Coffa Coe/ *Coe Memorial Educational Foundation* yn rhinwedd cynllun y Comisiwn Elusennau dyddiedig 25/06/1973 (copi ynghlwm yn Atodiad 1).

Ar ôl talu unrhyw dreuliau gweinyddu, amcanion yr ymddiriedolaeth yw defnyddio'r incwm blynyddol net er budd y buddiolwyr mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

a) drwy ddyfarnu i fuddiolwyr ysgoloriaethau, lwfansau cynhaliaeth, neu grantiau sy'n gymwys ar gyfer ysgol, prifysgol, coleg prifysgol, coleg addysg neu ganolfan ddysg arall a gymeradwyir gan y Cyngor;

b) drwy ddarparu cymorth ariannol, gwisgoedd, dillad, offer, offerynnau neu lyfrau i helpu buddiolwyr wrth iddynt adael yr ysgol, prifysgol neu sefydliad addysgol arall, er mwyn paratoi ar gyfer dechrau mewn proffesiwn, crefft neu alwedigaeth;

c) dyfarnu bwrsariaethau neu lwfansau cynhaliaeth er mwyn galluogi buddiolwyr i deithio, boed yn y wlad hon neu dramor, er mwyn cael addysg;

d) darparu cymorth ariannol er mwyn galluogi buddiolwyr i astudio cerddoriaeth neu gelfyddydau eraill; neu

e) hyrwyddo addysg buddiolwyr mewn modd arall (gan gynnwys hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol).

O dan yr ymddiriedolaeth caiff asedau amrywiol eu dal yn waddol parhaol (hynny yw, asedau y mae'n rhaid i'r ymddiriedolaeth eu cadw oni bai bod y Comisiwn yn ceisio awdurdod yn eu cylch) a dyma nhw:

- £10,785 o werthiannau hanesyddol; a
- Fferm Blaendyffryn, Llandysul ("y Fferm").

Rhaid i unrhyw incwm a wneir o'r arian sy'n cael ei ddal neu o osod y fferm gael ei ddefnyddio at ddibenion yr ymddiriedolaeth.

Mae Fferm Blaendyffryn yn cael ei gosod o dan denantiaeth amaethyddol ddyddiedig 24/11/2015. Tenantiaeth dreigl flynyddol yw hon o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Mae'r ymddiriedolaeth yn dal £78,625.09 o arian parod ar hyn o bryd (sy'n cynnwys y gwaddol parhaol y cyfeirir ato uchod ac £17,000 sydd mewn Bondiau Cynilo Cenedlaethol). Yr arian sydd ar gael, felly, i'w wario/ i ddyfarnu grantiau yw £67,840.09c oherwydd ni ellir defnyddio'r gwaddol parhaol o £10,785 o dan y Cynllun presennol.

Fel y gŵyr yr Aelodau o ddarllen Adroddiad Blynyddol yr ymddiriedolaeth hon a gyflwynwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 17/07/2024, mae swyddogion wedi bod yn cynnal adolygiad o'r fferm ar ran yr ymddiriedolaeth. Mae hyn mewn perthynas â'i chyflwr i ganfod rhwymedigaethau presennol yr ymddiriedolaeth fel landlord, ac i weld a yw'r ymddiriedolaeth yn gwneud y mwyaf o botensial y Fferm i wneud incwm.

Ni wnaed dyfarniadau o dan yr ymddiriedolaeth hon ers tro, a hynny am nifer o resymau (cynnydd yn y ceisiadau am gyllid yn y blynyddoedd 2000 cynnar, cwymp ariannol yn 2008 yn arwain at lai o incwm a'r arian a oedd ar gael yn prysur leihau neu'n rhedeg allan yn llwyr). Ers hynny mae'r arian wedi cynyddu'n raddol, fodd bynnag, gohiriwyd y dyfarniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn ystyried a ddylai'r ymddiriedolaeth ysgwyddo gwariant i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan denantiaeth y Fferm. Pan fydd hyn yn hysbys, bydd yr ymddiriedolwr yn gallu ystyried pa bryd y bydd yn gallu rhoi dyfarniadau unwaith eto. Byddai'n anghyfrifol o'r ymddiriedolwr i ddyfarnu grantiau ar hyn o bryd pan allai fod ganddo rwymedigaethau ariannol mewn perthynas â'r Fferm.

O ran dyfarnu dyfarniadau yn y dyfodol, bydd angen i'r ymddiriedolwr ystyried gweithdrefn benodol y gall yr ymddiriedolwr a'r swyddogion ei dilyn oherwydd ni fu un ar waith yn hanesyddol. Felly fydd papur yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor maes o law ynghylch hynny.

Adolygiad o gyflwr y fferm a hybu'r incwm i'r ymddiriedolaeth – gweler Atodiad Eithriedig 2

Argymhellion:
Bod y Pwyllgor yn PENDERFYNU nodi cynnwys yr adroddiad.

Y rheswm am y penderfyniad:
I hybu amcanion yr ymddiriedolaeth.

Atodiadau: Atodiad 1 – Cynllun 25/06/1973
Atodiad EITHRIEDIG 2 – Adolygiad o gyflwr y fferm a hybu'r incwm i'r ymddiriedolaeth

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Swyddog Adrodd: Louise Harries, Uwch-gyfreithiwr – Gwaith nad yw'n gynhennus (Eiddo)

Dyddiad: 18/09/2024